**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10am trwy gyfrwng Microsoft Teams ddydd Iau 13 Ionawr 2022**

**Yn Bresennol:** Cath Smith (Cadeirydd)
Melody Chapman, Gareth Wynn Davies, John T Davies, Rhys Davies, Jack Evershed, Rachael Madeley Davies, Prys Morgan, Emlyn Roberts a Claire Williams

**Trwy Wahoddiad:** Maria Richards (Llywodraeth Cymru)

**Y Weithrediaeth yn bresennol:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Kirsten Hughes (Swyddog Gweithredol Cig Coch).
Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)
John Richards (Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau)
Owen Roberts (Rheolwr Cyfathrebu)

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i unfed cyfarfod ar ddeg ffurfiol y Bwrdd oddi ar y pandemig Coronafeirws (Covid-19).

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am ddigwyddiadau a chyfarfodydd a fynychwyd ganddi:

15 Tachwedd 2021 – Grŵp Cynghori Llywodraeth Cymru ar Fasnach

25 Tachwedd 2021 – Roedd y Cadeirydd yn westai gwadd ar banel yng ngweminar COPCymru o'r enw 'Plannu hadau uchelgais – ffermio wrth wraidd defnydd cynaliadwy o'r tir yn y dyfodol'. Roedd y panel hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r ddau undeb ffermio a'r Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol.

8 Rhagfyr 2021 – Cyfarfod cynllunio Bwrdd HCC.

15 Rhagfyr 2021 - Cafodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr gyfarfod dal-i-fyny rhithwir gyda chynrychiolwyr Cymdeithas Proseswyr Cig Prydain (BMPA).

12 Ionawr 2022 – Rhith-ymunodd y Cadeirydd â Chynhadledd Sirol NFU Cymru Ceredigion fel siaradwr gwadd.

Parhaodd y cyfarfodydd dal-i-fyny wythnosol rhwng y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr drwy Teams.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Nodwyd ymddiheuriadau ar gyfer Aelod o'r Bwrdd, Huw Davies.

3. **Datganiadau o Fuddiannau**

Datganwyd budd gan yr Aelod Bwrdd John T Davies ar gyfer eitem 9b – trafodaeth ar Ffair Aeaf 2021.

4. **I gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Mercher 3 Tachwedd 2021 (HCC 1040)**

Cymerwyd cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Mercher 3 Tachwedd 2021 fel y'u darllenwyd, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **Materion yn codi**

Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru a chostau adennill 2022 / 2023

Nodwyd bod y Gweinidog wedi cytuno ag argymhelliad y Bwrdd y dylai cyfraddau'r ardoll aros fel y maent ar gyfer 2022 / 2023.

EIDCymru / Amlrywogaeth Cymru

Dywedodd y Prif Weithredwr fod gwaith yn mynd rhagddo o ran datblygu Amlrywogaeth Cymru (MSW).

6. **Adroddiadau HCC**

a. Gweithgareddau (HCC 1041)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd a chafodd gweithgareddau allweddol HCC eu hamlygu gan y Swyddog Gweithredol.

b. I dderbyn adroddiad gwerthuso canol tymor ar gyfer y Rhaglen Datblygu Cig Coch (RMDP) (HCC 1042)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant.

c. I dderbyn adroddiad gwerthusiad am gyfarfodydd Fforwm Ffermwyr Cig Coch HCC (HCC 1043)

Cymerwyd bod y papur gwybodaeth uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Rheolwr Cyfathrebu.

Roedd y gyfres o bum fforwm ffermwyr wedi denu cyfanswm o 145, heb gynnwys aelodau'r Bwrdd a'r Weithrediaeth.

O'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg o drafodaethau a oedd yn ymwneud â chyflawniadau HCC, nodwyd bod y camau gweithredu canlynol ar y gweill:

| | |
|---|---|
| Gwell gwybodaeth am y farchnad | Yn cael ei hadolygu ac eisoes wedi'i bwydo i'r broses bresennol o gynllunio ar gyfer gwelliannau yn 2022 |
| Cyfathrebu cynaliadwyedd | Camau wedi'u cymryd eisoes neu ar y gweill o ran cyfathrebu â defnyddwyr a rhanddeiliaid (gan |

| | |
|---|---|
| | gynnwys ar y cyd â QMS / AHDB), ymgysylltu newydd ag adran Newid yn yr Hinsawdd Llywodraeth Cymru |
| Diogelu brand | Diogelu eisoes yn cael ei wneud trwy Oritain a gwaith cysylltiedig |
| Cyfleoedd marchnata ethnig | Yn rhan o'r cynlluniau ar gyfer 2022 / 2023 |
| Adnoddau Addysg ac Iechyd | Gwelliannau pellach eisoes ar waith ac ar y gweill. Cafodd awgrymiadau eraill eu bwydo i'r cynllunio ar gyfer 2022 / 2023 |
| Strategaeth allforio ôl-Brexit | Ystyriwyd wrth gynllunio ar gyfer 2022 / 2023. Effaith Cytundebau Masnach Rydd wedi'i fwydo i'r drafodaeth Gwybodaeth am y Farchnad uchod |

<u>Derbyn diweddariad o Gynllun Gweithredol HCC 2021 / 2022 Adolygiad naw-misol Perfformiad yn ôl DPAau (HCC 1044)</u>

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafwyd crynodeb gan y Swyddog Gweithredol Cig Coch.

Dangosodd y ddogfen fod y 27 Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) wedi'u rhannu'n 53 llinell o fesurau unigol ac wedi eu diweddaru'n unol â hynny gan ddefnyddio'r dull cod lliw arferol.

Ar hyn o bryd, o'r 27 DPA, roedd 15 wedi'u cyflawni , roedd 12 o bosibl ar y trywydd iawn i gael eu cyflawni a byddai'r mwyafrif yn cael eu mesur yn ystod chwarter olaf y flwyddyn ariannol.

Cafwyd crynodeb gan y Pwyllgor Gwaith o'r targedau na fyddent efallai yn cael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol hon ac a amlygwyd mewn testun glas yn y tabl Mesur / Canlyniad.

Yn dilyn cwestiynau ac eglurhad ynghylch yr uchod, cytunodd y Bwrdd y dylid diwygio'r DPAau yng Nghynllun Gweithredol 2021 / 2022 er mwyn adlewyrchu'r amgylchedd y mae'r diwydiant yn gweithredu ynddo ar hyn o bryd. Felly, dylid diwygio'r DPAau y nodwyd eu bod yn annhebygol o gael eu cyflawni ym mlwyddyn ariannol 2021 / 2022 ac a oedd y tu allan i reolaeth uniongyrchol HCC i fod yn realistig ond yn dal yn heriol.

e. <u>Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 1045)</u>

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd.

f. <u>Digwyddiadau i ddod (HCC 1046)</u>

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd .

Nodwyd bod sioeau masnach Gulfood, Dubai, Foodex, Tokyo a Tavola, Gwlad Belg yn cael eu hadolygu'n gyson gan y Weithrediaeth. Byddai gan HCC bresenoldeb mewn stondin ym mhob un o'r digwyddiadau ond

roedd staffio yn amodol ar y sefyllfa o ran y pandemig Covid-19 a newid parhaus gyda chyfyngiadau.

7. **Corfforaethol**

a. I ystyried Cynllun Busnes drafft HCC ar gyfer 2022 / 2026 (HCC 1047)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd a chafwyd crynodeb gan y Prif Weithredwr a'r Swyddog Gweithredol Cig Coch.

Amlygodd y Prif Weithredwr fod y newidiadau canlynol wedi'u hymgorffori, yn unol â pholisïau newydd Llywodraeth Cymru:

- Roedd dogfen dreigl dair-blynedd HCC ar gyfer y cyhoedd y cyfeiriwyd ati yn flaenorol fel y "Cynllun Corfforaethol" wedi cael ei newid i "Cynllun Busnes"
- Byddai'r ddogfen, wrth symud ymlaen, yn cwmpasu tymor cyfan y Llywodraeth, sef 2022 – 2026
- Roedd y Cynllun drafft bellach yn cynnwys adran ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a oedd â'r nod o wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru (tudalennau 7 ac 8).

Yn unol â Gweledigaeth 2025, roedd y Cynllun Busnes pedair-blynedd drafft yn nodi'r meysydd gwaith allweddol a gafodd eu blaenoriaethu gan y Bwrdd ar gyfer defnydd effeithiol o arian Ardoll Cig Coch Cymru. Cafodd chwe mecanwaith cyflawni eu nodi ac roedd y Cynllun drafft yn nodi DPAau ac yn amlinellu'r hyn a ddisgwylir ar gyfer 2022 / 2026.

Nodwyd y chwe elfen gyflawni - Marchnadoedd allforio, marchnadoedd Prydain Fawr, sefyllfa brand cryf a chystadleuol, Gwybodaeth ac ymchwil marchnad, gweithgareddau Ymchwil a Datblygu ac effeithlonrwydd y gadwyn gyflenwi.

Rhagwelwyd y byddai pandemig Covid-19 yn parhau i gael effaith ar gyflawniad HCC yn ystod y Cynllun pedair-blynedd hwn ac felly roedd y ddogfen wedi cael ei haddasu gyda golwg ar heriau Covid-19.

Mae'r cynllun hefyd yn canolbwyntio ar ddarpariaeth gost-effeithiol ac mae'n cydnabod pwysigrwydd mesur effaith buddsoddiadau. Byddai cydweithio, cydweithredu a chyfathrebu ar draws y diwydiant yn rhan annatod o lwyddiant.

b. I ystyried Cynllun Gweithredol drafft HCC ar gyfer 2022 / 2023 (HCC 1048)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd a chafodd ei gyflwyno gan y Swyddog Gweithredol Cig Coch.

8. I dderbyn a chymeradwyo'r Cynllun Gwaith i'r Bwrdd ar gyfer 2022 / 2023 (HCC 1049)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd, a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

9. **Pwyllgorau HCC**

Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg

a. *I dderbyn adroddiad llafar a mabwysiadu'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Mercher 3 Tachwedd 2021 (HCC 1050)*

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

Defnyddiwyd y cofnodion fel adroddiad i'r Bwrdd heb unrhyw faterion yn codi.

Y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu

b. *I dderbyn adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu a gynhaliwyd ddydd Iau 13 Ionawr 2022*

Cafwyd adroddiad llafar am yr uchod gan Gadeirydd y Pwyllgor.

Y Pwyllgor Ymchwil a Chynghori a Chyfnewid Gwybodaeth

c. *I fabwysiadu'r Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ddydd Mercher 9 Hydref 2021 (HCC 1051)*

Cymerwyd yr uchod fel y'u darllenwyd, a chawsant eu mabwysiadu gan y Bwrdd.

Y Gweithgor Iechyd Diadelloedd a Buchesi (FHHWG)

d. *I dderbyn cofnodion cyfarfod FHHWG a gynhaliwyd ddydd Mercher 20 Hydref 2021 (HCC 1052)*

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

10. **Unrhyw fater arall**

Nid oedd unrhyw fater arall.

11. **Dyddiadau cyfarfodydd i ddod**

Diweddariad telegynhadledd y Bwrdd – Dydd Iau 3 Chwefror 2022 am 9.30am
Cyfarfod o Fwrdd HCC – Dydd Iau 3 Mawrth 2022. Yr amser i'w drefnu eto.

**Llofnodwyd…………………………….**